**Dr Richard Jones**
**Cyfarwyddwr Addysg**
**Director of Education**

Rhieni, staff a llywodraethwyr yn Ysgol Golwg Pen y Fan / Parents, staff and governors at Ysgol Golwg Pen y Fan

**Atebwch os gwelwch yn dda /Please reply to:**
Gwasanaeth Addysg **/** Education Service
Cyngor Sir Powys / Powys County Council
Neuadd y Sir / County Hall
Llandrindod Wells
Powys   LD1 5LG

*Os yn galw gofynnwch am / If calling please ask for*

*Tîm Trawsnewid Addysg / Transforming Education Team*

*Ffôn / Tel:*

*E-bost / Email: transforming.education@powys.gov.uk*

*Dyddiad / Date:  14 Hydref / October 2025*

Annwyl bawb / Dear all,

**Ysgol Golwg Pen y Fan – campws Cradoc**

Fel y byddwch yn ymwybodol, yn dilyn y gostyngiad a fu mewn niferoedd disgyblion ar gampws Cradoc Ysgol Golwg Pen y Fan ers agor yr ysgol ym mis Medi 2024, mae'r Cyngor yn ystyried cau'r safle o ddiwedd y flwyddyn ysgol hon.

Ystyriwyd papur cychwynnol gan Gabinet y Cyngor heddiw, pan benderfynodd y Cabinet gynnal ymgynghoriad ar gynnig i leihau capasiti Ysgol Golwg Pen y Fan, drwy gau safle Cradoc.

Bydd yr ymgynghoriad, a fydd yn dechrau yn fuan ar ôl hanner tymor, yn para am 6 wythnos, a bydd yn sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn cael cyfle i roi gwybod i'r Cyngor eu barn ar y cynnig hwn.

Ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori, bydd adroddiad ymgynghori yn cael ei baratoi sy'n crynhoi'r sylwadau a wnaed yn ystod yr ymgynghoriad, a bydd y Cabinet yn ystyried yr adroddiad ymgynghori ac yn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig ai peidio. Os byddant yn penderfynu bwrw ymlaen, byddai yna gyfnod arall o 28 diwrnod i randdeiliaid gyflwyno gwrthwynebiadau ysgrifenedig os nad ydynt yn cytuno â'r cynnig. Byddai angen paratoi adroddiad pellach wedyn i'w

**Ysgol Golwg Pen y Fan – Cradoc campus**

As you will be aware, following the decrease seen in the number of pupils attending Ysgol Golwg Pen y Fan's Cradoc campus since the school opened in September 2024, the Council is considering closure of the site from the end of this school year.

An initial paper was considered by the Council's Cabinet today, when Cabinet decided to carry out consultation on a proposal to decrease the capacity of Ysgol Golwg Pen y Fan, by closing the Cradoc site.

The consultation, which will start soon after half term, will last for 6 weeks, and will ensure that all stakeholders have the opportunity to let the Council know their views on this proposal.

At the end of the consultation period, a consultation report will be prepared summarising the comments made during the consultation, and Cabinet will consider the consultation report and decide whether or not to proceed with the proposal. If they decide to proceed, there would then be a further 28 day period for stakeholders to submit written objections if they don't agree with the proposal. A further report would then need to be prepared for

ystyried gan y Cabinet, yn amlinellu unrhyw wrthwynebiadau a dderbyniwyd.

Er fy mod yn gwerthfawrogi y bydd hyn yn achosi ansicrwydd i gymuned ysgol Ysgol Golwg Pen y Fan, a'r rhai ar safle Cradoc yn arbennig, gallaf eich sicrhau nad oes unrhyw benderfyniadau wedi'u gwneud eto ynghylch a ddylid bwrw ymlaen â gweithredu’r cynnig ai peidio, a byddwn yn eich annog i fanteisio ar y cyfle i roi gwybod i'r Cyngor eich barn fel rhan o'r broses ymgynghori.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau eraill ar hyn o bryd, gallwch gysylltu â'r tîm Trawsnewid Addysg gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod. Fel arall, byddaf yn ysgrifennu atoch eto ar ôl hanner tymor i roi gwybod i chi pan fydd yr ymgynghoriad wedi dechrau.

consideration by Cabinet, outlining any objections received.

Whilst I appreciate that this will cause uncertainty for the Ysgol Golwg Pen y Fan school community, and those on the Cradoc site in particular, I can assure you that no decisions have yet been made regarding whether or not to proceed with implementing the proposal, and I would encourage you to take the opportunity to let the Council know your views as part of the consultation process.

If you have any other queries at this time, you can contact the Transforming Education team using the contact details above. Otherwise, I will be writing to you again after half term to let you know when the consultation has started.

Yn gywir / Yours sincerely,

**Dr Richard Jones**
Cyfarwyddwr Addysg / Director of Education